


# O NA! DDIM YR YSGOL FAWR!

Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government

Gwybodaeth a syniadau ar gyfer Pawb sy'n Ymwneud â Chynlluniau Trawsnewid ar gyfer Pobl Ifanc gydag Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd sy'n Symud i Ysgolion Eilradd

Autism Cymru
Wales' National Charity for Autism
Elusen Genedlaethol Cymru ar gyfer Awtistiaeth

Maggie Bowen a Lynn Plimley



## Rhagair

Yn ystod y digwyddiadau ymgynghori a gymerodd le ynghylch Cynllun Gweithredol Strategol Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd Llywodraeth Cynlluniad Cymru, mynegwyd pryder gan rieni a phroffesiynolwyr ynghylch pobl ifanc gydag anhwylderau sbectrwm awtistaidd sy'n symud o amgylchedd diogel ysgol gynradd i ysgol eilradd mwy o faint a mwy ffurfiol. Arianwyd y llyfryn hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r bwriad o helpu lleihau straen y broses hon i bobl ifanc gydag anhwylderau sbectrwm awtistaidd a'u teuluoedd. Rydym yn ddiolchgar iawn i Dean Beadle am rannu ei brofiadau gyda ni a chynnig ei gefnogaeth a'i gyngor wrth inni ysgrifennu'r llyfryn hwn.


Hoffem hefyd ddiolch i aelodau fforwm Ysgolion Eilradd Autism Cymru, y disgyblion a'u teuluoedd a Jennie Thomas am ei chyfraniadau.

## Rhagymadrodd

Ag ystyried yr anawsterau y mae llawer o ddisgyblion gydag ASA yn eu hwynebau wrth ymdopi â newid, mae'n bwysig rhoi pwyslais cryf ar draswnewid sydd wedi ei gynllunio'n ofalus ar draws yr holl gamau yn y broses o drawsnewid. Rhaid felly delio'n sensitif gyda'r symud o un ddarpariaeth i un arall. Mae gan rai awdurdodau lleol swyddogion penodedig gyda chyfrifoldeb dros fonitro'r trawsnewid un ai ar draws sawl cam neu o fewn un cam.

Y tueddiad yw rhoi ffocws addysgol ar y trawsnewid o addysg gynradd i eilradd yn hytrach na ffocws aml-asiantaethol. Defnyddir trefnweithiau a amlinellir yn y Côd Ymarfer (LICC 2002). P'un ai oes datganiad addysg arbennig ar gyfer unigolion gydag ASA neu ddim, dylai'r awdurdod lleol roi cyfle i rieni / gofalwyr ac unigolion gydag ASA i drafod ysgolion addas y dylent ymgeisio eu mynychu. Pan fo unigolion â datganiad, dylid trafod beth yw'r ddarpariaeth hanfodol mewn ysgol eilradd yn ystod adolygiad blynyddol Blwyddyn 5.

Dylid cadw cofnodion digonol ynghyd â dulliau proffilio fel bo unrhyw wybodaeth yn gallu mynd gyda'r unigolion gydag ASA wrth iddynt symud i'w hysgol newydd. Yn y modd yma rhaid i'r Cynlluniau Addysg Unigol – CAU (Individual Education Plans – IEPs) fod yn gyfredol gyda'r adolygiadau blynyddol wedi eu cofnodi'n dda. Dylai pob disgybl gael ffeil unigol sy'n rhoi manylion eu cryfderau a beth sydd angen ei ddatblygu. Mewn rhai awdurdodau efallai bydd swyddog gydag arbenigedd mewn ASA ar gael i gefnogi'r ysgol yn ystod y cam trawsnewid a datblygu partneriaethau gydag ysgolion eraill sydd ganddynt yr arbenigedd a'r profiad perthnasol. Mae hefyd yn bwysig fod gan ysgolion aelod o staff i'w cysylltu hwy â'r plentyn er mwyn eu cynorthwyo yn ystod cyfnodau trawsnewid, yn enwedig mewn ysgolion eilradd lle mae'n rhaid iddynt gyfathrebu â llawer o aelodau staff gwahanol.



## Paratoi

Gorau po gyntaf y cychwyna ymarferion ymgyfarwyddo â'r amgylchedd newydd. Gall rhieni sydd wedi dewis ysgolion cynradd prif-ffrwd i'w plant gydag ASA, deimlo'n ansefydlog pan yn edrych ar ddarpariaeth eilradd.  Efallai bydd rhai'n pryderu bod yr amgylchedd eilradd yn rhy fawr a rhy brysur i'w plentyn ac efallai wedyn yn ystyried lleoliad ysgol arbennig.  Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol wedi datblygu cronfeydd adnoddau ASA yn gysylltiedig ag ysgol prif-ffrwd penodedig. Os felly, yna dylai'r cynllunio trawsnewid rhwng y camau cynradd ac eilradd fod yn haws.

Efallai bod y plentyn gydag ASA wedi mynychu ysgol gynradd o fewn ei (ch)gymuned a bod y rhieni a'r staff wedi dod i adnabod ei gilydd.  Ar y llaw arall, gall yr ysgol eilradd fod rhyw bellter o'u cartref a'r unig ffordd i fynd yno yw ar drafnidiaeth yr ysgol.  Gall y diffyg cyswllt personol ac ethos effeithiolrwydd ysgolion eilradd, gyda phwyslais cryf ar gydymffurfio, olygu bod mynychu Blwyddyn 7 prif-ffrwd yn opsiwn anodd iawn i blant gydag ASA a'u teuluoedd i'w ddewis.  Fodd bynnag, gyda chynllunio gofalus gellir goresgyn llawer o'r rhwystrau. Er enghraifft, mae mwy o ysgolion eilradd cynhwysol yn cymryd mwy o gyfrifoldeb wrth esmwytháu trawsnewid disgyblion gydag anabledd trwy ymarferion cynnar ac effeithiol i gefnogi disgyblion y dyfodol.  Mor gynnar â Blwyddyn 4 neu 5 cynghorir Cydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig Eilradd i gadw mewn cyswllt â'u cydweithwyr yn yr ysgolion cynradd er mwyn adnabod disgyblion fydd angen cefnogaeth arnynt.  Gall hyn wneud y gwahaniaeth i gyd a gwneud y trawsnewid ar draws y camau yn llwyddiannus.

Mewn rhai ardaloedd gellir cyflwyno 'cytundebau cefnogaeth' wedi'u cysylltu â nifer arbennig o oriau ar gyfer plentyn a enwir o fewn lleoliad pendant;  yn anffodus gall hyn orffen unwaith fydd y plentyn yn symud i leoliad newydd.  Yn aml penodir aelod staff cefnogaeth newydd gyda chytundeb gwahanol.  Er bod hyn yn ddealladwy, gall fod yn newid arall y mae'n rhaid i'r plentyn ddysgu ei dderbyn ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus yn y cynllunio trawsnewid.

## Strategaethau sy'n helpu

Mae Plimley a Bowen (2006a,tud.2) yn awgrymu'r canlynol pan yn cynllunio trawsnewid:

- Nodi'r trefnweithiau a amlinellir yng Nghôd Ymarfer Anghenion Addysg Arbennig
- Ystyried safbwyntiau, teimladau a phryderon y plentyn gydag ASA bob amser (LICC 2002)
- Y Cydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig eilradd a chynradd i gyfathrebu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ysgol
- Y Cydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig eilradd i fynychu Adolygiadau

Blynyddol plant gyda Datganiad Anghenion Arbennig ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6

- Y plentyn gydag ASA i ymweld â'r ysgol eilradd mor aml â phosibl yn Nhymor yr Haf, cyn y Diwrnod Agored pan fydd holl ddisgyblion arfaethedig Blwyddyn 7 yn ymweld
- Aelod staff Eilradd wedi ei (h)enwebu i roi cefnogaeth fugeiliol cynnar i'r plentyn
- Cadw cofnodion digonol a dulliau proffilio fel bo'r holl wybodaeth berthnasol yn mynd gyda'r ungiolion gydag ASA wrth iddynt symud ymlaen
- Gwahodd rhieni plentyn gydag ASA i'r ysgol Eilradd i siarad am wahaniaethau eu plentyn
- Y staff i gynhyrchu Cynllun Gweithredol o amgylch anghenion cefnogaeth y plentyn
- Achub y blaen a gweithredu addasiadau synhwyraidd ac amgylcheddol
- Labelu'r amgylchedd Eilradd i'w wneud yn fwy clir yn weledol
- Gwneud yr amgylchedd Eilradd yn 'fap rhithwir' CDROM fel canllaw i BOB disgybl newydd (Cook a Stowe, 2003) ymhell cyn y dyddiad cychwyn
- Holl staff Eilradd yn mynychu sesiynau codi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio astudiaeth achos disgyblion gydag ASA y maent yn eu hadnabod
- Amgylchedd Eilradd gydag ystafell 'lle diogel' yn ystod amser chwarae ar gael i ddisgyblion bregus
- Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig Eilradd yn cadw ffeil cludadwy o wybodaeth hygyrch ar yr holl gyflyrau sy'n bresennol ym mhoblogaeth disgyblion yr ysgol
- Y Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig Eilradd gyda rhestrau gwirio chwim ar gyfer pob athro / athrawes yn cynnwys canllaw ar sut i addysgu disgyblion gyda chyflyrau gwahanol
- System Cyfaill mewn grym
- Mecanyddiaeth 'Cylch Cyfeillion' (Whitaker, Barrat, Joy, Potter a Thomas, 1998) o fewn yr ysgol
- Cadw holl sianeli cyfathrebu ar agor

Mae Dean Beadle, sy'n ŵr ifanc gydag ASA, yn siaradwr poblogaidd mewn cynadleddau. Mae e'n cynnig y cyngor canlynol sy'n seiliedig ar ei brofiadau personol ei hun:

1. **Ymweliadau â'r ysgol cyn iddynt gychwyn yno.** Byddai hyn yn eu hymgyfarwyddo a'r ysgol i leihau'r sioc ar y diwrnod cyntaf
2. **Dod i wybod eu hamserlen o flaen llaw** er mwyn iddynt ddod i delerau â lle maent i fod a phryd, cyn iddynt gychwyn.
3. **Cyfarfod â'r Cynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu newydd cyn dechrau yn yr ysgol** er mwyn iddynt



deimlo fod ganddynt rhywun ar eu hochr nhw yn y dosbarth. Byddai hyn hefyd yn osgoi'r sioc o gyfarfod y Cynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu ar y diwrnod cyntaf. Mae mynd i'r ysgol eilradd yn llawn o bethau newydd ac ansefydlogrwydd, felly bydd adnabod eu Cynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu o flaen llaw yn golygu bod rhywbeth yn gyfarwydd ac felly yn cynhyrchu teimlad o sefydlogrwydd.


4. **Cynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu yr ysgol gynradd yn symud gyda nhw i'r ysgol eilradd.** Byddai hyn yn eu helpu i deimlo'n gyfforddus oherwydd bod ganddynt gefnogaeth gan berson y maent yn gyfforddus yn eu cwmni. Os nad yw hyn yn bosibl yna **dylai Cynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu yr ysgol gynradd gyfarfod â Chynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu yr ysgol eilradd** fel bo gwybodaeth am y plentyn (pa strategaethau sy'n gweithio ac ati) yn cael eu trosglwyddo'n effeithlon. Efallai, cael y cyfarfod rhwng Cynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu yr ysgol Gynradd a Chynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu yr ysgol Eilradd yng ngŵydd y plentyn er mwyn i'r plentyn weld fod ei Gynorthwy-ydd Cefnogaeth Dysgu yn newid a bod y gofal yn cael ei drosglwyddo.

5. **Efallai byddai hyfforddi cyd-ddisgyblion / staff ynghylch awtistiaeth yn helpu.** Yn ddibynol ar y plentyn, efallai bydd y plentyn ei hun am gymryd rhan yn hyn hefyd. Mewn rhai achosion gall siarad gyda'r dosbarth cyn i'r plentyn gyrraedd wneud i'r dosbarth deimlo'n gyffrous am ddyfodiad y plentyn ac yn fwy parod i fod yn 'gyfaill' i'r plentyn ac ati. Serch hynny ni fyddai hyn yn gweithio gyda rhai plant, y plant mwy mewnblyg, felly byddai'n rhaid i'r plentyn reoli hyn.

## Beth sydd gan staff ysgolion eilradd i'w ddweud?

Gofynasom i athrawon a fynychodd Fforwm Ysgolion Eilradd Autism Cymru i ddweud wrthym am rai strategaethau sydd wedi bod o bwys iddynt. Dyma eu hawgrymiadau:

- Gadael i ddisgyblion gymryd eu ffotograffau eu hun a gwneud eu fideos eu hun o'u hymweliad
- Rhoi holiadur ar wahân i ddisgyblion a rhieni i gael arolwg cyflawn o'r plentyn
- Gwneud DVD o'r ysgol neu ddylunio map gyda chôd lliw ac amserlenni
- Defnyddio pasport cyfathrebu / gwybodaeth - un ddalen A4 yn dangos galluoedd, anawsterau, diddordebau a strategaethau'r disgybl er mwyn lleihau straen
- Defnyddio cylch allwedd gyda thabiau wedi'u lamineiddio ynghlwm wrth gâs pensil. Gall y tabiau ar y cylch allwedd fod â chôd lliw i amlygu gwahanol wybodaeth e.e. cryfderau (gwyrdd),





targedau (oren), a phethau all achosi straen (coch). Gellid defnyddio rhai tabiau i rybuddio disgyblion am reolau a threfnweithiau.

- Ymweld ar adegau gwahanol (yn cynnwys amser chwarae ac amser cinio) a chynnwys y rhieni gymaint â phosibl. Rhoi Cynllun Trawsnewid manwl i'r disgybl a'r rhieni gyda dyddiadau ac amseroedd ymweliadau a chyfarfodydd ar gychwyn Blwyddyn 6 a sicrhau bod oedolyn sy'n gyfarwydd i'r disgybl gydag ef / hi ar yr adegau hynny.
- Cynnal diwrnod hyfforddi ysgol gyfan ar ASA ar gychwyn y flwyddyn ysgol.
- Oes oes gan yr ysgol eilradd glwb rhieni sefydlog sy'n cyfarfod ar ôl oriau'r ysgol – gwahodd disgyblion Blwyddyn 6 a'u rhieni i'r cyfarfod. Gall y disgyblion a'r rhieni drafod unrhyw bryderon gyda'i gilydd.
- Gwahodd rhieni i wneud cyflwyniad fideo – sylwadau personol i helpu staff i ddeall yn well.
- Cynhyrchu llyfryn ysgol yn amlygu'r pethau fydd yn wahanol.
- Gofyn i'r disgyblion wneud rhestr o dri pheth y maent yn edrych ymlaen atynt a thri pheth y maent yn bryderus yn eu cylch. Siarad am hyn gyda'r disgybl a'r rhieni a defnyddio'r wybodaeth yn y Cyfarfod Cynllunio Trawsnewid ehangach.
- Sicrhau bod gyrrwyr tacsi ac hebryngwyr newydd yn gwybod am anghenion y disgybl a'u cyflwyno i'w gilydd cyn dechrau Blwyddyn 7 os yn bosibl.


## Safbwyntiau'r Rhieni

Gofynnodd aelodau'r fforwm i rai rhieni beth oedd o gymorth iddynt. Dywedasant:

- Gwybodaeth am yr ysgol – beth fyddai'n digwydd yn ystod y trawsnewid, lluniau o'r ysgol a manylion am y staff allweddol i gysylltu â hwy.
- Caniatáu i'w mab / merch ymweld â'r ysgol eilradd sawl tro i ymgyfarwyddo â'r amgylchedd a'r staff newydd.
- Gall aros i ginio fod yn ddefnyddiol iawn pan fo gan blant ddeiet gyfyngedig. Gallant weld beth sydd i'w fwyta a ph'un ai ydynt yn ei hoffi.
- Gall ymweliadau trawsnewid y rhieni / gofalwyr â chysylltydd penodedig leihau'r straen ar rieni / gofalwyr.
- Asesiad llawn o anghenion trawsnewid – yn gymdeithasol ac addysgol.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion ASA ymysg yr holl staff.

## I grynhoi

Pur anaml mae unigolion gydag ASA yn hoffi newid. Felly mae rhaid cynllunio'r symud o ysgol gynradd i ysgol eilradd ymhell o flaen llaw a dylid cynnwys staff o'r ysgol gynradd





ac eilradd, y disgybl a'r teulu.  Nid yw'r rhesr strategaethau yn y llyfryn hwn yn gyflawn o bell ffordd a gall weithio i rai ond nid i eraill.  Mae'n bwysig edrych ar anghenion yr unigolyn a darparu pecyn arbennig i'r unigolyn er mwyn gwneud y symud mor rhydd o straen â phosibl.

## I gloi…

Down i ben wrth gynnwys sylwadau gan ddau ŵr ifanc gydag ASA.  Mae neges unigol yn y ddau ddyfyniad.

***'Teimlais ei bod yn anodd cychwyn ysgol eilradd ar fy mhen fy hun oherwydd dim ond un ymweliad wnes i cyn gadael yr ysgol gynradd.  Pan ddechreuais ym Mlwyddyn 7, roedd yn teimlo fel uffern oherwydd roeddwn yn cael fy mwlio.  Nid oedd yr athrawon yn gwybod am fy mhroblemau ac nid oedd yr Uned Anhwylderau Cyfathrebu yn bodoli'r pryd hwnnw.  Nawr rwy'n cael llawer o help ac mae fy mywyd yn haws.'***

Mewn ateb i'r cwestiwn 'Beth oedd fwyaf o gymorth i chi?'

***'Roedd yr athrawon yn gyfeillgar iawn ac yn garedig.  Roeddwn am i'm ffrind gorau fod gyda mi oherwydd doeddwn i ddim yn hoffi bod ar fy mhen fy hun.'***

## Cyfeiriadau


Bowen, M. a Plimley, L. (2008) *The Autism Inclusion Toolkit*, Llundain: Sage Publications

Cook, L.L a Stowe, S. (2003) Sgwrs a roddwyd ar Wasanaeth Cefnogol Cynhwysol o  Bellter Nottingham ar benwythnos (ASA), Ysgol Addysg, Prifysgol Birmingham.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) (2002) *Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Plimley, L. a Bowen, M. (2006) *Autistic Spectrum Disorders in the Secondary School*, Llundain: Sage Publications

Whitaker, P. et al (1998) Children with autism and peer group support using 'Circle of Friends'. *British Journal of Special Education*, 25, 60-4.


**Am fwy o wybodaeth am Gynllunio Trawsnewid ebostiwch Maggie Bowen ar Maggie@autismcymru.org neu gallwch ffonio +44 (0) 1978 853841 neu +44 (0) 7766 805822.**

